



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Rhaglen Arweinyddiaeth 20twenty

Astudiaeth Achos – John Davey



Cyfarwyddwr, Cyfrifwyr Siartredig Groves Davey, Caerdydd
www.grovesdavey.co.uk

Dulliau cliriach o ennill cleientiaid newydd a llif arian gwell yw dau ganlyniad allweddol y mae Groves Davey wedi elwa arnynt ers i John Davey gwblhau ei Raglen Arweinyddiaeth 20twenty.

Dywed: “Y llwyddiant mwyaf yr ydym wedi ei gyflawni yw newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i gleientiaid; mae hyn wedi ein helpu i ddenu cleientiaid yr oeddem yn arfer eu hystyried y tu hwnt i'n cyrraedd.

“Rydym ni wedi gallu ailasesu anghenion cwsmeriaid a datblygu lefel newydd o ddarparu gwasanaeth sy'n fwy addas i'w hanghenion.

“Mae datblygu perthynas hirdymor â'n cleientiaid wrth wraidd hynny, drwy roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt pan fo'i hangen arnynt, sy'n eu galluogi i weithredu'n fwy effeithiol a chynyddu proffidioldeb.

“Mae ein canlyniadau ariannol wedi bod yn galonogol, gan gynnwys llif arian gwell o lawer, a chynnal proffidioldeb o dan amodau anodd y farchnad.”

Felly beth oedd y nodwedd ddiffiniol fwyaf o daith Arweinyddiaeth 20Twenty John? Dywed: “Y brif fantais i mi oedd fy mod i bellach yn meddwl yn hollol wahanol am y busnes, gan newid y ffordd rwy'n gweithio a'r hyn rwy'n ei wneud. Erbyn hyn, rwy'n canolbwyntio ar y cyd-destun ehangach a materion a strwythurau hirdymor, yn hytrach nag ymgolli yn y problemau pob dydd. Mae hyn wedi galluogi pawb arall yn y cwmni i ddatblygu yn eu swyddi ac i'r busnes weithredu'n effeithlon hebof i.”

Mae'r buddiannau mawr eraill yn cynnwys sgiliau gwell a mwy o hyder, wrth weld gwelliannau yn bennaf ym meysydd cyfathrebu, datrys problemau a defnyddio technoleg.

Dywed John: “Mae'r ffactorau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fy mywyd y tu allan i'r gwaith hefyd, gan fod yr egwyddorion yn berthnasol i bopeth yn fy mywyd ac nid busnes yn unig.”